**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Mawrth 2022 |

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2022/23-2029/30

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7 Mawrth 2019 cyflwynwyd rhybudd o gynnig gan y Cyng. Catrin Wager yn amlinellu'r peryglon sy'n deillio o effeithiau newid hinsawdd. Er mwyn ymateb i hyn penderfynodd y Cyngor i wneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod drwy ddatgan argyfwng hinsawdd ynghyd â chamau pendant i edrych ar y mater.

Yn dilyn hyn bu i'r Cyngor ar 19 Rhagfyr 2019 dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith gan y Cyngor oedd yn nodi fod tasglu wedi ei sefydlu gan y Cabinet – Bwrdd Newid Hinsawdd - ac y byddai'n llunio 'Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd'. Eglurwyd fod y Bwrdd o'r farn y dylid hefyd ddatgan bod argyfwng natur yn ogystal, gan fod y ddau mor gyd-ddibynnol.

Er mwyn gweithredu'r penderfyniad ucheold, mae'r Bwrdd Newid Hinsawdd wedi llunio'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur fydd yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd y Cyngor yn ei cymryd i gyrraedd y nod o fynd yn Gyngor carbon sero-net erbyn 2030.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd ddatganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dafydd Meurig gan ei fod yn Gadeirydd Bartneriaeth Ogwen a Cyng. Catrin Wager gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Bartneriaeth Ogwen, roedd y ddau fuddiant yn rhagfarnu gan fod y Bartneriaeth wedi ei enwi o fewn y Cynllun Gweithredu a bu i'r ddau adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Mawrth 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 7:FFIOEDD CARTREFI PRESWYL A NYRSIO AR GYFER 2022/23

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar ffioedd safonol cartrefi annibynnol preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23, a'u gweithredu yn unol ag amodau a thelerau'r Cyngor ar y lefel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Preswyl | £627 |
| Preswyl EMI | £695 |
| Nyrsio | £731 |
| Nyrsio EMI | £774 |

Gofynnwyd am adroddiad pellach ar y mater i ystyried priodoldeb adolygiad o lefel y ffioedd ar gyfer y flwyddyn.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod y  Cyngor yn gosod ffi yn flynyddol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal (preswyl a nyrsio) o fewn y sector preifat.

Eglurwyd fod y Cyngor angen gosod ffi cyn Ebrill 2022 er mwyn caniatáu ar gyfer gweithredu. Ar gyfer 2022/23 mae cyfle i'r Cyngor ystyried posibilrwydd ffi uwch ar gyfer lefelau staff, yn ogystal â chostau chwyddiant blynyddol. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach ar yr agweddau ariannol o hyn cyn gallu dod i benderfyniad.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

---

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Mawrth 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 8:CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer cyfnod 2022-2032, cyn i'r Awdurdod ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae angen i'r Cynllun Strategol gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i lofnodi gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb statudol dros addysg o fewn yr awdurdod.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 8 Mawrth 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 23 Mawrth 2022 |

**PWNC**

Eitem 9:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN TAI AC EIDDO

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.